Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

# Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug

25 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3863-7
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 2

Methodoleg ........ 2

Cyd-destun ........ 4

Crynodeb ........ 5

Canfyddiadau ........ 7

Profiad y Claf ........ 7

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 19

Atodiad A ........ 20

## Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Ngofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn 25 Stryd Gaer, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1EG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 25 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*:*Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.*[1]

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn rhan o rwydwaith gofal deintyddol Oasis, a gofrestrwyd fel Oasis Healthcare Ltd. Mae’r cwmni hwn yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol arbenigol i gleifion ledled Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.[2] Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn darparu gwasanaethau i tua 14,000 o gleifion yn yr Wyddgrug ac yn ardal gyfagos Sir y Fflint.

Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, naw nyrs ddeintyddol, rheolwr practis, cydlynydd practis, a derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau iechyd y geg
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Pontydd, coronau a thriniaethau sianel y gwreiddyn
- Sythu dannedd a'u gwynnu
- Mewnblaniadau deintyddol

Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf ond hefyd rhai gwasanaethau sy'n perthyn i drefniadau gofal deintyddol preifat. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

---

[2]Cafwyd gwybodaeth ym mis Mawrth 2015 drwy http://www.oasisdentalcare.co.uk/about-us/

# Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well:Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

**Profiad y Claf**

Ar y cyfan, roedd y cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC ac a welsom yn ystod yr ymweliad arolygu yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion, gan gynnwys y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat a'r gweithdrefnau cwyno. Rhoddir cyfleoedd digonol i gleifion ddarparu adborth am eu profiadau.

Fodd bynnag, rydym wedi argymell y dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth gorfforaethol Oasis yn cael ei haddasu ar gyfer eu practis deintyddol yn yr Wyddgrug, gan gymryd i ystyriaeth y rheoliadau, canllawiau a safonau sy'n berthnasol yng Nghymru.

**Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

Gwelsom fod y cyfleusterau ac offer deintyddol a oedd ar gael yn dda. Roedd ymarferwyr deintyddol yn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau yn ystod y broses o lanhau a sterileiddio offer.

Rydym wedi atgoffa deintyddion i ddefnyddio'r ddyfais gorchuddio nodwyddau a gafwyd gan Oasis i atal y risg o anafiadau miniog. Gwnaethom hefyd argymell y dylai cynwysyddion offer miniog gael eu symud wrth y lleoedd lle y gall plant o bosibl gael mynediad atynt.

Roedd staff yn cadw'n gyfredol â'u hyfforddiant adnewyddu mewn arferion clinigol fel adfywio cardio-pwlmonaidd ac ymbelydredd a radiograffeg.

Ar y cyfan, roedd safon yr hylendid yn yr ardaloedd clinigol yn dda, ond atgoffwyd y practis i lanhau'r holl ardaloedd yn yr ystafelloedd triniaeth lle cedwir offer deintyddol, ac i ddefnyddio gorchuddion amddiffynnol pan nad yw allweddellau cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio.

Er bod safon nodiadau clinigol cleifion yn gyson dda gan un deintydd, roedd anghysondebau ymhlith deintyddion eraill. O ganlyniad, rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Gwnaethom argymell bod archwiliadau eraill yn cael eu cynnal er mwyn monitro cynnydd yn y maes hwn.

## Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Caiff y broses o reoli Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug o ddydd i ddydd ei goruchwylio gan reolwr y practis, sy'n gweithio yno ddydd Mawrth, ddydd Mercher a bore dydd Iau. Mae cydlynydd ar gael ym mhractis yr Wyddgrug ar ddydd Llun a dydd Gwener pan nad yw rheolwr y practis yn bresennol. Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn drefnus ac yn cael ei reoli'n effeithiol.

Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau, gan gynnwys y gweithdrefnau cwyno, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Cymru.

## Ansawdd yr Amgylchedd

Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug wedi'i leoli ar lawr daear adeilad masnachol sydd wedi'i addasu, ac mae yng nghyffiniau canol tref yr Wyddgrug. Cafodd y practis ei feddiannu gan Oasis Healthcare Ltd yn 2006, ac fe gafodd y llawr daear ei adnewyddu'n gyfan gwbl bryd hynny. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod y lleoliad yn gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol.

Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg lle yn gyffredinol yn y practis ac, o bosibl, roedd perygl y gallai rhywun syrthio pan fyddai pobl yn eistedd yng nghadeiriau'r ystafell aros. Nid oedd unrhyw gyfleusterau newid i'r staff, na lle i storio eu heiddo, felly roedd staff yn defnyddio'r tŷ bach anabl at y diben hwn – arfer nad oedd yn dderbyniol gennym. Cawsom wybod am gynlluniau i ehangu llawr cyntaf yr adeilad, ac fe fyddai hyn yn datrys y broblem o ddiffyg lle.

Rydym wedi argymell y dylai'r practis roi gorchudd dros ffenestri pob ystafell driniaeth, er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion.

# Canfyddiadau

## *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, roedd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC ac a welsom ni yn ystod yr arolygiad yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion, gan gynnwys y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat a'r gweithdrefnau cwyno. Darperir digon o gyfleoedd i gleifion ddarparu adborth am eu profiadau.**

**Fodd bynnag, rydym wedi argymell y dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth gorfforaethol Oasis yn cael ei haddasu ar gyfer eu practis deintyddol yn yr Wyddgrug, gan gymryd i ystyriaeth y rheoliadau canllawiau a safonau sy'n berthnasol yng Nghymru.**

Wythnos cyn yr arolygiad, gwnaeth AGIC ddarparu ein holiadur safonol i'r practis, a oedd yn gofyn cwestiynau cyffredinol i gleifion ynglŷn â'u bodlonrwydd cyffredinol ar agweddau'r gwasanaeth. Gwnaethom dderbyn a dadansoddi ymatebion i 17 o holiaduron a gwblhawyd ar fore'r arolygiad, a gwnaethom sgwrsio â thri chlaf yn ystod y dydd.

Gwnaeth yr holl gleifion uchod nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau a dderbyniwyd ganddynt wrth y practis, a gwnaethant ddweud bod y tîm fel arfer yn rhoi croeso iddynt. Rhoddodd ambell un o'r cleifion sylwadau cadarnhaol, ac rydym wedi cynnwys sampl o'r rhain isod:

> "*Bob amser yn mwynhau mynd at y deintydd, byth yn cael unrhyw broblemau."*
>
> *"Rydw i'n edrych ymlaen at fy ymweliadau, rydw i'n cael hwyl yn y dderbynfa …"*
>
> *"Amgylchedd cyfeillgar."*

Roedd tri o'r cleifion wedi cael profiad o oedi wrth aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Fodd bynnag, dywedodd un o'r cleifion wrthym fod hyn yn anarferol iawn. Dywedodd un o'r cleifion eraill mai dim ond am gyfnod byr yr oedd yr oedi, a dywedodd y trydydd claf, er bod oedi, roedd yn werth aros. Dywedodd claf arall ei fod wedi cael siom o'r ochr orau i gael apwyntiad yr un diwrnod.

Heblaw un claf, roedd pawb yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd un claf y byddai’n hoffi derbyn copi o'r costau cyfredol pan fyddai’n ymweld, yn ogystal ag adolygiad blynyddol ar ansawdd ei ddannedd ac unrhyw driniaeth bosibl neu arfaethedig. Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ynglŷn â'r sylw hwn, a dywedwyd wrthym y byddai'r trafodaethau hyn yn digwydd fel rheol yn ystod apwyntiadau cleifion. Yn anffodus, oherwydd bod yr holiaduron yn ddienw, nid oedd gennym ni fanylion cyswllt y claf i archwilio’r mater hwn ymhellach.

Dywedwyd wrthym y cynigir apwyntiad rheolaidd i gleifion bob tri, chwech neu ddeuddeg mis, ac os oes gan y practis rif ffôn symudol claf, anfonir neges destun i'w hatgoffa ymlaen llaw.

Nid oedd rhai o'r cleifion yn gwybod sut i gyflwyno cwyn na sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod rhestr o ffioedd ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau’r GIG, gweithdrefn gwyno’r practis, a manylion cyswllt y tu allan i oriau arferol wedi'u harddangos yn amlwg yn y practis. Yn dilyn y sylwadau a gafwyd gan rai o'r cleifion, efallai y byddai'r practis yn dymuno archwilio dulliau ar sut i wella ymwybyddiaeth cleifion o'r wybodaeth hon.

Gwnaethom edrych ar daflen wybodaeth y practis, a oedd ar fin cael ei diweddaru i gynnwys oriau agor estynedig y practis. Roedd yr wybodaeth hon eisoes wedi cael ei diweddaru ar y wefan. Fodd bynnag, ar y cyfan roeddem yn teimlo bod gwybodaeth ysgrifenedig Oasis Healthcare Ltd, gan gynnwys y wybodaeth ar ei wefan, yn dilyn templed safonol y gorfforaeth ac nad oedd yn ddigon unigoledig ar gyfer yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan Ofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug. Ni wnaed unrhyw gyfeiriadau at reoliadau, canllawiau na sefydliadau allweddol sy'n bodoli yng Nghymru. Roedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud â chwynion, er enghraifft, yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal fel y corff rheoleiddiol. Mae hwn yn gamarweiniol i gleifion yng Nghymru am mai AGIC yw'r rheoleiddiwr.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai rheolwr y practis ymgynghori â rheolwyr perthnasol yn Oasis Healthcare Ltd i adolygu a diweddaru eu gwybodaeth ysgrifenedig i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y practis deintyddol yn yr Wyddgrug, gan gymryd i ystyriaeth y rheoliadau, canllawiau a safonau sy'n berthnasol yng Nghymru.***

Gwnaethom edrych ar rai o'r sylwadau a ysgrifennwyd gan gleifion yn y llyfr sylwadau ar ddesg y dderbynfa; roedd yr holl sylwadau y gwnaethom edrych arnynt yn canmol y staff a/neu'r gwasanaeth.

Cawsom gopi o arolwg safonol y cwmni sy'n cael ei roi i gleifion bob chwarter. Arddangoswyd canlyniadau'r arolwg blaenorol, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2014, ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros, ac roedd hyn yn nodi bodlonrwydd y cleifion â'r gwasanaeth. Gwelsom stoc o gardiau yn yr ystafell aros, a oedd yn gwahodd cleifion i ddarparu adborth ar-lein ac a oedd yn cynnwys cyfeiriad e-bost y cwmni at y diben hwn. Golygai hyn fod gan gleifion ddigon o gyfleoedd i ddarparu adborth am eu profiad.

## *Cyflenwi’r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Gwnaethom ganfod bod y cyfleusterau a'r offer deintyddol a oedd ar gael yn dda. Roedd ymarferwyr deintyddol yn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau yn ystod y broses o lanhau a sterileiddio offer.**

**Rydym wedi atgoffa deintyddion i ddefnyddio'r ddyfais gorchuddio nodwyddau a gafwyd gan Oasis i atal y risg o anafiadau miniog. Gwnaethom hefyd argymell y dylai cynwysyddion offer miniog gael eu symud wrth y lleoedd lle y gall plant o bosibl gael mynediad atynt.**

**Roedd staff yn cadw'n gyfredol â'u hyfforddiant adnewyddu mewn arferion clinigol fel adfywio cardio-pwlmonaidd ac ymbelydredd a radiograffeg.**

**Ar y cyfan, roedd safon yr hylendid yn yr ardaloedd clinigol yn dda, ond atgoffwyd y practis i lanhau'r holl ardaloedd yn yr ystafelloedd triniaeth lle cedwir offer deintyddol, ac i ddefnyddio gorchuddion amddiffynnol pan nad yw allweddellau cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio.**

**Er bod safon nodiadau clinigol cleifion yn gyson dda gan un deintydd, roedd anghysondebau ymhlith deintyddion eraill, felly rydym wedi argymell gwelliannau. Gwnaethom argymell bod archwiliadau eraill yn cael eu cynnal er mwyn monitro cynnydd yn y maes hwn.**

### Offer a dogfennaeth radiograffeg

Gwelsom fod y ddogfennaeth a oedd yn ymwneud ag offer radiograffeg (pelydr-X) yn drefnus ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys asesiadau risg a gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd. Roedd pob ystafell driniaeth yn cynnwys offer pelydr-X, a gwelsom fod y rhain yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau arferion gwaith diogel.

Rhoddwyd tystysgrifau hyfforddi inni a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff a oedd yn gyfrifol am ddefnyddio offer pelydr-X wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod 2014. Defnyddiwyd llyfr log gan y deintyddion i raddio ansawdd pelydrau-X, sy'n arfer dda, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau radiograffeg, yr ymgymerwyd â'r un mwyaf diweddar ohonynt ym mis Mawrth 2015.

### Cyfleusterau clinigol

Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau clinigol yn dda, a gwelsom fod digon o offer, cyfarpar a dillad diogelwch angenrheidiol ym mhob ystafell driniaeth. Roedd y llawr a'r arwynebau gwaith yn hawdd i'w glanhau, ac roedd arwyneb y llawr

wedi'i selio ar yr ymylon, sy'n helpu i atal baw a llwch rhag cronni a thrwy hynny yn lleihau’r risg o groes-heintio.

Gwnaethom sylwi bod rhai o'r hambyrddau sydd yn y dreir ar gyfer cadw offer a gwaelod y cadeiriau pedestal ym mwyafrif yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys gronynnau bach o faw ysgafn neu lwch.  Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr practis, ac fe wnaeth gytuno i atgoffa'r staff i lanhau’r ardaloedd hyn fel mater o drefn, yn unol ag amserlen lanhau'r practis. Roedd yr holl ardaloedd eraill a welsom, yn yr ystafelloedd triniaeth ac yn y practis, i'w gweld yn lân.

Cawsom wybod bod gorchuddion allweddell ar gael i leihau'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, pan wnaethom ni arolygu'r ystafelloedd triniaeth yn ystod yr awr ginio, nid oedd y gorchuddion wedi cael eu rhoi dros bob un o'r allweddellau. Unwaith eto, cytunodd rheolwr y practis i atgoffa staff i ddefnyddio'r rhain pan nad oedd yr allweddellau’n cael eu defnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

**Atgoffir y practis i gydymffurfio â phrotocolau glanhau a dadheintio, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05,** [3] **gan sicrhau bod pob arwynebedd yn cael ei gadw yn lân rhag llwch a bod gorchudd dros allweddellau cyfrifiaduron pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.**

**<u>Gweithdrefnau dadheintio</u>**

Esboniwyd y broses ddadheintio (sef y broses ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol) i ni gan ddwy nyrs ddeintyddol. Roedd hyn yn dangos eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Mae gan y practis ystafell ddadheintio benodol, ac roedd sinciau a chyfleusterau ymolchi dwylo ar wahân. Fodd bynnag, oherwydd diffyg lle a diffyg storfa, mae cynlluniau ar y gweill i ehangu ar y practis ac i greu ardal ddadheintio well. Fel rhan o'r cynllun gwella hwn, ac i anelu tuag at arferion gorau, gwnaethom argymell y dylid ystyried y canllawiau fel y nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wrth ddylunio a chynllunio ar gyfer y cyfleusterau dadheintio newydd.

---

[3] Cyfres o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir ar gyfer codi ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

Ar hyn o bryd, mae'r broses o ddadheintio ac ailbrosesu offer yn cael ei chynnal gan y nyrs ddeintyddol sy'n gweithio ym mhob ystafell driniaeth. Gwelsom fod practis deintyddol yr Wyddgrug yn hynod o brysur gan fod iddi bum ystafell driniaeth, a gwelsom lawer o gleifion yn dod i mewn ac allan yn ystod y dydd. Cawsom wybod bod y nyrs yn llwyddo i ailbrosesu offer yn ystod y dydd. Gwnaethom argymell bod lefelau staffio'n cael eu monitro'n agos, gan ystyried nifer sylweddol y cleifion y darperir gwasanaethau ar eu cyfer, sy'n arwain at gryn dipyn o offer y mae angen ei ailbrosesu bob dydd – rhwng cael ei ddefnyddio gan gleifion ac mewn modd diogel ac amserol.

Roedd offer deintyddol yn cael ei lapio a'i gofnodi â dyddiad o 12 mis at ddibenion storio. Ar gyfer y mathau o awtoclafau a ddefnyddir gan y practis (sef math N),[4] mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn nodi:

> "*Practices are advised that sterilized instruments should only be stored for extended periods where there is a clear need or identified service requirement. It is recommended that wrapped instruments stored for more than 1 month should be reprocessed.*
> *In general dental practice it is likely that the instrument stock will have a rapid turnover of use and therefore the storage of up to 1 year may be irrelevant*."

Er mwyn cydymffurfio â'r cyngor uchod, dywedodd y rheolwr practis y byddant yn rhoi system ar waith i nodi'r dyddiad pan fydd offer yn cael ei sterileiddio a'i roi mewn bag, ac os nad yw'n cael ei ddefnyddio ymhen mis, i'w ailbrosesu unwaith eto cyn ei ddefnyddio.

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd ar waith yn y practis, gan gynnwys archwiliad bob chwe mis ar reoli heintiau.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Gwnaethom edrych ar y ffeiliau polisi a gweithdrefnau a gweld eu bod yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau iechyd a diogelwch, asesiadau risg a chytundebau a oedd ar waith ar gyfer casglu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel yn y practis.

Roedd dyfeisiadau gorchuddio nodwyddau wedi cael eu prynu ar gyfer pob ystafell driniaeth ar gyfer gwaredu ar nodwyddau a oedd wedi'u defnyddio

---

[4]Disgrifir y mathau gwahanol o awtoclafau a ddefnyddir mewn practisau deintyddol ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 uchod.

mewn ffordd ddiogel. Diben y dyfeisiadau hyn yw diogelu staff drwy leihau'r risg o ddadheintio drwy anafiadau gan offer miniog. Fodd bynnag, gwnaeth rhai o'r deintyddion gyfaddef nad oeddent yn defnyddio'r rhain ac felly roeddent mewn mwy o berygl o gael anaf. Cawsom wybod bod pob deintydd wedi cael ei atgoffa am yr angen i ddefnyddio'r dyfeisiadau hyn, ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ynglŷn â defnyddio offer miniog yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol o asesiad risg offer miniog y practis, a luniwyd yn 2014.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r holl ddeintyddion gadw at weithdrefn Oasis wrth orchuddio nodwyddau a defnyddio'r ddyfais briodol a brynwyd ar gyfer pob ystafell driniaeth, gan leihau'r risg felly o ddadheintio yn sgîl anafiadau miniog.***

Nid oedd rhai o'r blychau melyn a ddefnyddir i waredu ar offer miniog wedi cael eu gosod ar y wal, ac roeddent wedi cael eu rhoi ar lefel y llawr, neu'n agos ato. O bosibl, gallai'r rhain fod o fewn gafael plant a gallent achosi risg. O ganlyniad, gwnaethom argymell y dylai'r practis symud y rhain fel eu bod tu hwnt i afael plant.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

**Dylid symud y cynwysyddion offer miniog i ffwrdd o'r ardaloedd lle gall plant gael mynediad atynt.**

**<u>Offer a meddyginiaeth mewn argyfwng</u>**

Roedd tri o'r aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, fel y nodwyd yn rhai o'r dogfennau a'r tystysgrifau a welsom. Gwelsom hefyd fod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd bob blwyddyn, a chynhaliwyd yr hyfforddiant mwyaf diweddar yn ystod Mehefin 2014.

Roedd un o'r nyrsys yn gyfrifol am fonitro dyddiadau dod i ben ar gyffuriau, ac roedd hi'n cadw cofnod o'r rhain. Gwnaethom ganfod bod meddyginiaeth frys yn cael ei chadw mewn lle diogel a bod yr holl feddyginiaeth a welsom o fewn ei dyddiad dod i ben.

**<u>Cofnodion cleifion</u>**

Cadwyd cofnodion cleifion ar y system gyfrifiadurol. Gwelsom ddau gofnod fesul deintydd, a gwnaethom ganfod bod ansawdd cadw'r cofnodion gan un o'r deintyddion yn gyson dda.  Fodd bynnag, roedd anghysondebau ymhlith y deintyddion eraill, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom drafod y gwelliannau isod.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion gwybodaeth y cleifion bob amser yn cynnwys:***

- ***Hanes cymdeithasol y cleifion, gan gynnwys eu defnydd o alcohol a thybaco***
- ***Cofnod o sgrinio am ganser, y risgiau a'r esboniad***
- ***Cydsyniad cleifion, gan gynnwys cydsyniad ar gyfer radiograffau a thriniaethau deintyddol***
- ***Cyfiawnhad o'r radiograffau a gymerwyd ac archwiliad clir o'r dyddiad y gwnaed hyn a'r dyddiad bydd yr un nesaf***
- ***Hanes meddygol llawn, gan sicrhau bod pob blwch gwirio wedi cael ei gwblhau***

Gwelsom fod archwiliad o gofnodion wedi'i gynnal yn ystod 2014 a 2015. Mae monitro ansawdd a chysondeb y broses o gadw cofnodion rhwng deintyddion yn arfer da. Roedd yr holl feysydd uchod wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio archwiliad safonol a welsom. Fodd bynnag, yn sgîl yr anghysondebau uchod, argymhellwn fod y broses archwilio gyfredol yn cael ei harolygu a bod archwiliad dilynol yn cael ei gynnal i fonitro cynnydd a sicrhau bod camau ar waith tuag at fodloni gwelliannau pellach a mwy o gysondeb rhwng deintyddion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau archwilio cyfredol ac ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd pellach i fonitro cysondeb ac ansawdd cadw cofnodion rhwng deintyddion ac i gymryd y camau priodol i fodloni a chynnal gwelliant yn y maes hwn.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Caiff y broses o reoli Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug o ddydd i ddydd ei goruchwylio gan reolwr y practis, sy'n gweithio yno ddydd Mawrth, ddydd Mercher a bore dydd Iau. Mae cydlynydd ar gael ym mhractis yr Wyddgrug ar ddydd Llun a dydd Gwener pan nad yw rheolwr y practis yn bresennol. Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn drefnus ac yn cael ei reoli'n effeithiol.**

**Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau, gan gynnwys y gweithdrefnau cwyno, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Cymru.**

Cawsom drafodaethau cynhwysfawr â'r rheolwr practis ac aelod o dîm cydymffurfio clinigol Oasis yn ystod yr arolygiad, a chanfuom eu bod yn hawdd mynd atynt ac yn gadarnhaol wrth ymateb i'n hargymhellion ar gyfer gwelliannau.

Gwnaethom ganfod bod y gweithdrefnau a'r polisïau a welsom wedi cael eu hysgrifennu'n dda ar y cyfan, ac roeddent yn mynd i'r afael â'r holl agweddau a ddisgwylir mewn practis deintyddol. Roedd dyddiadau gweithredu ac arolygu polisïau wedi'u cynnwys ynddynt, a gwelsom fod aelodau staff wedi llofnodi rhai o'r rhain i gadarnhau'r dyddiadau iddynt eu darllen, a gwnaethom nodi fod hon yn arfer dda.

Fodd bynnag, oherwydd bod polisïau a gweithdrefnau Oasis yn cael eu safoni ar hyn o bryd ledled eu rhwydwaith yn y DU, gwnaethom argymell bod y polisïau sy'n ymwneud â'r practis yn yr Wyddgrug yn cael eu hadolygu er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru. Cawsom wybod bod ymarfer mapio eisoes ar waith at y diben hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

**Dylai polisïau a gweithdrefnau gael eu hadolygu a'u diweddaru fel y bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru.**

Cawsom ein hysbysu gan y rheolwr practis bod pob ymdrech wedi'i gwneud i gynnal cyfarfodydd staff yn fisol. Gwelsom sampl o nodiadau o gyfarfodydd diweddar, a gwnaethom awgrymu bod cofnodion mwy manwl yn cael eu cadw, i gynnwys cofnodion clir o'r trafodaethau, y camau gweithredu a gymerwyd, ac unrhyw bwyntiau dysgu yn sgîl y rhain.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis yn gyson â threfniadau Gweithio i Wella'r GIG.[5] Fodd bynnag, ni chyfeiriwyd at y trefniadau hyn yn y weithdrefn gwyno ac nid oedd gan y practis ar hyn o bryd gopi o hysbysiadau neu daflenni Gweithio i Wella.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ymgyfarwyddo â gweithdrefn gwyno'r GIG – Gweithio i Wella – sy'n berthnasol i Gymru.***

Gwnaeth un o'r cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC nodi bod y practis wedi ymdrin â chwyn yn effeithlon, gan lwyddo i'w ddatrys yn gadarnhaol ac yn gyflym.

Roedd tystiolaeth yn y sampl o gofnodion cwynion y practis a welsom bod y rhain yn cael eu hystyried o ddifrif. Roedd y rheolwr practis yn cynnal cofnod o'r cwynion a oedd yn ei galluogi i fonitro unrhyw themâu cyffredin a phwyntiau dysgu yn sgîl y cwynion. Gwnaethom argymell y gellir hefyd ychwanegu dyddiad cydnabod y llythyr at y cofnod hwn.

Gwnaethom roi ystyriaeth i weithdrefnau recriwtio'r practis a gwelsom fod datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o staff, ac roeddent o fewn tair blynedd ers cael eu cyflwyno. Gwelsom hefyd y tystysgrifau a oedd yn cadarnhau cofrestriad y deintyddion â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac AGIC. Nid oedd copïau o eirdaon ar gael ar gyfer yr aelod o staff oedd wedi cael ei recriwtio fwyaf diweddar, a dywedwyd wrthym y dylai'r rhain fod wedi cael eu hanfon at y practis wrth y brif swyddfa. Dywedodd y rheolwr practis y byddai hi'n cael copïau a'u cadw yn y ffeil staff yn y practis yn yr Wyddgrug.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, disgwylir y bydd gwelliannau i'w gweld yn y meysydd hynny yn ystod yr arolygiad nesaf, er mwyn dangos cydymffurfedd â rheoliadau a safonau perthnasol.

[5] Mae Gweithio i Wella yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) ynglŷn â gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Mae Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug wedi'i leoli ar lawr daear adeilad masnachol sydd wedi'i addasu, ac mae yng nghyffiniau canol tref yr Wyddgrug. Cafodd y practis ei feddiannu gan Oasis Healthcare Ltd yn 2006, ac fe gafodd y llawr daear ei adnewyddu'n gyfan gwbl bryd hynny. Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod y lleoliad yn gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol.**

**Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg lle yn gyffredinol yn y practis ac, o bosibl, roedd perygl y gallai rhywun syrthio pan fyddai pobl yn eistedd yng nghadeiriau'r ystafell aros. Nid oedd unrhyw gyfleusterau newid i'r staff, na lle i storio eu heiddo, felly roedd staff yn defnyddio'r tŷ bach anabl at y diben hwn - arfer nad oedd yn dderbyniol gennym. Cawsom wybod am gynlluniau i ehangu llawr cyntaf yr adeilad, ac fe fyddai hyn yn datrys y broblem o ddiffyg lle.**

**Rydym wedi argymell y dylai'r practis roi gorchudd dros ffenestri pob ystafell driniaeth, er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion.**

Ar wahân i'r argymhelliad a wnaed o dan bennawd 'cyfleusterau clinigol' yn adran flaenorol yr adroddiad hwn (tudalen 10), roedd yr holl ardaloedd a welsom yn lân ac yn olau, gyda digon o awyr iach ynddynt.

Roedd gan bob drws i'r pum ystafell driniaeth ffenestr fach. Oherwydd bod y rhain ar lefel y llygad, roeddem yn gallu gweld y tu mewn tra oedd cleifion yn derbyn eu triniaeth. Roedd yr ystafell aros wedi'i gwasgaru ar hyd y coridor, ac roedd cadeiriau wedi'u gosod y naill ochr a'r llall er mwyn i'r cleifion eu defnyddio, ac roedd llif cyson o gleifion yn cerdded heibio’r rhan fwyaf o’r ystafelloedd triniaeth. Esboniwyd inni fod yr ymarferydd deintyddol yn camu’r tu allan i'r ystafell pan fod pelydrau-X yn cael eu cymryd, yn unol ag arferion gwaith diogel, ond bod y ffenestr yn eu galluogi i weld y tu mewn o hyd. Gwnaethom argymell bod y practis yn gorchuddio’r ffenestri ar bob adeg arall i warchod preifatrwydd ac urddas y cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell bod y practis yn gorchuddio’r ffenestri i warchod preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth i bobl gerdded heibio i'r ystafelloedd triniaeth.***

Roedd y toiledau, gan gynnwys un a oedd wedi'i addasu i bobl anabl, wedi'u lleoli ar ben gwaelod y coridor, heibio i'r holl ystafelloedd triniaeth. Pan fod pobl yn defnyddio'r cadeiriau yn y coridor hwn, mae hyn yn cyfyngu ar y lle sydd ar gael, yn enwedig i'r sawl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion cerdded.  Gwelsom nifer o bobl yn defnyddio cymhorthion cerdded yn ystod yr arolygiad, ac roedd risg ychwanegol y byddent yn syrthio dros draed pobl yn yr ardal aros.

Cawsom wybod am gynlluniau i symud rhai o gyfleusterau'r staff i'r llawr cyntaf. Yn hyn o beth, gwnaethom argymell bod y gweithfan gyfrifiadur, sydd wedi'i lleoli ar hyn o bryd yn y man aros, yn cael ei hadleoli, a dylid ystyried symud rhai o'r cadeiriau i'r ardal hon, a allai ddatrys y broblem a geir ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phrinder lle yn yr ystafell aros.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynllun a lleoliad y cadeiriau yn yr ystafell aros, er mwyn sicrhau bod unrhyw berygl posibl sy'n cael ei beri ganddynt yn cael ei leihau.***

Gwelsom fod cyfleusterau'r staff yn gyfyng iawn, a bod yr ardal ar gyfer y derbynyddion ac ystafell y rheolwr practis yn fach.

Roedd y toiled anabl yn cael ei ddefnyddio gan staff i wisgo eu hiwnifform a rhoi eu dillad bob dydd i gadw, ac roedd felly'n cynnwys cyfleusterau storio at y diben hwn. Dywedwyd gennym nad oedd yr arfer hwn yn dderbyniol ac na ddylai toiledau'r cleifion gael eu defnyddio at ddibenion storio. Cawsom wybod bod staff yn rhagweld y bydd y broblem hon yn cael ei datrys pan fydd cynlluniau i ehangu i'r llawr cyntaf yn mynd yn eu blaen.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell na ddylai'r toiled anabl gael ei ddefnyddio fel cyfleuster newid dillad ar gyfer staff nag ar gyfer dibenion storio. Dylid gwneud trefniadau amgen cyn gynted â phosibl.***

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd Gofal Deintyddol Oasis yr Wyddgrug yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Gofal Deintyddol Oasis (Yr Wyddgrug)

## Dyddiad yr Arolygiad: 25 Mawrth 2015

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 8 | Dylai rheolwr y practis ymgynghori â rheolwyr perthnasol yn Oasis Healthcare Ltd i adolygu a diweddaru eu gwybodaeth ysgrifenedig i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y practis deintyddol yn yr Wyddgrug, gan gymryd i ystyriaeth y rheoliadau, canllawiau a safonau sy'n berthnasol yng Nghymru. | **Mae hyn yn cael ei newid ar hyn o bryd ar daflenni gwybodaeth Oasis yn yr Wyddgrug. Bydd taflenni gwybodaeth i gleifion yn cynnwys y rheoliadau, y canllawiau a'r safonau sy'n gywir ac yn berthnasol yng Nghymru.** | | Un mis |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 10 | Atgoffir y practis i gydymffurfio â phrotocolau | **Cynhaliwyd cyfarfod practis, a rhoddwyd sylw** | | Wedi'i |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | glanhau a dadheintio, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, [6]gan sicrhau bod pob arwynebedd yn cael ei gadw yn lân rhag llwch a bod gorchudd dros allweddellau cyfrifiaduron pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. | **eto i'r canllawiau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.Sicrhau bod pob arwynebedd yn cael ei gadw yn lân rhag llwch, ac nad oes annibendod arno. Atgoffa'r staff am yr angen i gydymffurfio â phrotocolau glanhau a dadheintio.** <br><br> **Archebwyd gorchuddion newydd ar gyfer allweddellau'r cyfrifiaduron.** | | gwblhau |
| 12 | Dylai'r holl ddeintyddion gadw at weithdrefn Oasis wrth orchuddio nodwyddau a defnyddio'r ddyfais briodol a brynwyd ar gyfer pob ystafell driniaeth, gan leihau'r risg felly o ddadheintio yn sgîl anafiadau miniog. | **Mae'r holl ddeintyddion wedi ailystyried y weithdrefn a'r polisi hwn, ac maen nhw bellach yn gwbl glir o ran sut y dylid ail-orchuddio nodwyddau gan ddefnyddio'r ddyfais gywir ar gyfer hyn.** | | Wedi'i gwblhau |
| 12 | Dylid symud y cynwysyddion offer miniog i ffwrdd o'r ardaloedd lle gall plant gael mynediad atynt. | **Mae'r holl gynwysyddion offer miniog bellach wedi cael eu symud o'r llawr, a thu hwnt i afael plant.** | | Wedi'i gwblhau |
| 12 – 13 | Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion | **Trefnwyd cyfarfod deintyddol i hysbysu pob** | | Cwblhawyd |

[6] Cyfres o ganllawiau yw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a fwriedir ar gyfer codi ansawdd gwaith dadheintio (glanhau a sterileiddio) mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth y cleifion bob amser yn cynnwys:<br>• Hanes cymdeithasol y cleifion, gan gynnwys eu defnydd o alcohol a thybaco<br>• Cofnod o sgrinio am ganser, y risgiau a'r esboniad<br>• Cydsyniad cleifion, gan gynnwys cydsyniad ar gyfer radiograffau a thriniaethau deintyddol<br>• Cyfiawnhad o'r radiograffau a gymerwyd ac archwiliad clir o'r dyddiad y gwnaed hyn a'r dyddiad bydd yr un nesaf<br>• Hanes meddygol llawn, gan sicrhau bod pob blwch gwirio wedi cael ei gwblhau | **deintydd bod cynnwys y wybodaeth hon yn ofynnol yng nghofnodion cleifion.**<br><br>**Cynhelir archwiliadau ar hap bob mis i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi a'i chymhwyso.** | | erbyn 29 Mai 2015<br><br>Archwiliadau parhaus bob mis |
| 13 | Dylai'r practis adolygu ei weithdrefnau archwilio cyfredol ac ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd pellach i fonitro cysondeb ac ansawdd cadw cofnodion rhwng deintyddion ac i gymryd y camau priodol i fodloni a chynnal gwelliant yn y maes hwn. | **Bydd cyfarfodydd deintyddol a gynhelir gan ein prif ddeintyddion bob mis yn cynnwys monitro archwiliadau, a byddant yn sicrhau trwy hynny bod y cysondeb a'r ansawdd yn cael eu cynnal a bod unrhyw gamau sydd angen eu cymryd yn cael eu hamlinellu a'u bodloni.** | | Fesul mis ac yn barhaus |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 14 | Dylai polisïau a gweithdrefnau gael eu | **Trefnwyd cyfarfod practis i drafod** | | 29.05.15 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | hadolygu a'u diweddaru fel y bo angen, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru. | **deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yng Nghymru, a gwneud diwygiadau lle bo angen.** | | |
| 15 | Rhaid i'r practis ymgyfarwyddo â gweithdrefn gwyno'r GIG – Gweithio i Wella – sy'n berthnasol i Gymru. | **Mae hwn wedi cael ei adolygu. Mae gweithdrefn gwyno'r GIG yng Nghymru - Gweithio i Wella - bellach ar waith.** | | Wedi'i gwblhau |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 16 | Gwnaethom argymell bod y practis yn gorchuddio'r ffenestri i warchod preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth i bobl gerdded heibio i'r ystafelloedd triniaeth. | **Bydd gorchuddion yn cael eu rhoi ar ffenestri drysau pob ystafell driniaeth er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion.** | | 01.06.15 |
| 17 | Dylid rhoi ystyriaeth bellach i gynllun a lleoliad y cadeiriau yn yr ystafell aros, er mwyn sicrhau bod unrhyw berygl posibl sy'n cael ei beri ganddynt yn cael ei leihau. | **Mae ailadeiladu ac ehangu adeilad y practis Oasis yn yr Wyddgrug yn mynd yn ei flaen, a bydd y gwaith hwn – ar ôl iddo gael ei gwblhau – yn datrys y problemau sy'n ymwneud â threfn y cadeiriau yn yr ystafell aros a lleihau unrhyw berygl syrthio a allai gael ei achosi ganddynt.** | | 6–8 mis |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Gwnaethom argymell na ddylai'r toiled anabl gael ei ddefnyddio fel cyfleuster newid dillad ar gyfer staff nag ar gyfer dibenion storio. Dylid gwneud trefniadau amgen cyn gynted â phosibl. | **Bydd cwblhau'r gwaith ailadeiladu ac ehangu ym mhractis Oasis yn yr Wyddgrug yn datrys pob problem sy'n ymwneud â diffyg lle storio a chyfleusterau newid dillad i staff.**<br>**Ni fydd y toiled anabl yn cael ei ddefnyddio wedyn i newid dillad ynddo.** | | 6-8 mis yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio a gwaith adeiladu sydd ar y gweill. |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (wedi'i brintio):** **Natasha Bennett**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **14.05.15**